Barry Walters
Pembrokeshire College
Merlin's Bridge
Haverfordwest
SA61 1SZ

13 Ionawr / January 2022

Annwyl / Dear Barry Walters

**Ymweliad monitro prentisiaethau dysgu yn y gwaith**

Rhwng 6 a 9 Rhagfyr 2021, ymwelodd Mark Evans AEM a Sandra Barnard AEM â'r darparwr a'i isgontractwyr i adolygu'r ffordd y cafodd ei raglenni prentisiaeth eu darparu yn ystod blwyddyn gyntaf y contract. Mae'r llythyr hwn yn darparu crynodeb o'r adborth o'r ymweliad hwn.

Consortiwm yn cynnwys naw o ddarparwyr hyfforddiant partner dan arweiniad Coleg Sir Benfro yw B-WBL. Mae'r consortiwm yn darparu prentisiaethau yn ne a gorllewin Cymru i 4265 o brentisiaid. Mae'r consortiwm yn darparu prentisiaethau ar draws 11 o feysydd dysgu ar lefel 2, lefel 3 a phrentisiaethau uwch. Y meysydd dysgu mwyaf yw iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, sydd â 1970 o ddysgwyr, peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, sydd â 1132 o ddysgwyr, ac adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, sydd â 1163 o ddysgwyr. Ar draws consortiwm B-WBL, mae darparwyr hefyd yn cyflwyno rhaglenni fel rhaglen lefel 4 mewn therapi harddwch, rhaglen lefel 2 mewn sgaffaldio, a chymhwyster peirianneg amlfedrau sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd a diod.

Wrth ddyfarnu'r contract ar gyfer rhaglenni prentisiaeth, gofynnodd Llywodraeth Cymru i B-WBL gefnogi 410 o ddysgwyr a ddadleolwyd o ddarparwr hyfforddiant a'i isgontractwyr na ddyfarnwyd contract prentisiaeth iddo. Dyrannwyd darparwr hyfforddiant newydd o'r consortiwm i'r dysgwyr hyn, a fydd yn parhau i gefnogi eu hyfforddiant.

Mae'r system tâl rheoli sy'n cael ei weithredu gan B-WBL yn galluogi isgontractwyr i fanteisio ar ystod eang o swyddogaethau cymorth, fel cynnydd dysgwyr a systemau adrodd, adroddiadau rheoli, ac arweiniad ar anghenion dysgu ychwanegol a diogelu. Gall aelodau'r consortiwm fanteisio ar ystod gynhwysfawr o weithgareddau dysgu proffesiynol. Mae gan y tâl rheoli elfen wedi'i seilio ar risg sy'n cael ei phennu gan lefel y cymorth sydd ei hangen ar aelodau'r consortiwm. Gall aelodau'r consortiwm ostwng eu tâl ymhellach drwy berfformio'n dda yn erbyn deg dangosydd perfformiad allweddol a ddatblygwyd gan B-WBL. Mae'r dangosyddion hyn yn mesur perfformiad partner mewn sawl agwedd ar gyflawni ei gontract, gan gynnwys deilliannau dysgwyr, boddhad dysgwyr a chanlyniad archwiliadau ansawdd. Mae'r consortiwm yn dyrannu prentisiaid newydd ar sail sawl ffactor, gan gynnwys recriwtio hanesyddol, perfformiad a galw. Dywed aelodau'r consortiwm fod B-WBL yn

gweithredu mewn modd cynhwysol, tryloyw ac agored. Mae'r strwythur arweinyddiaeth ar draws y consortiwm yn cefnogi cyfathrebu rheolaidd a chlir, gyda chyfarfodydd yn adolygu perfformiad ac yn rhannu ystod eang o wybodaeth yn rheolaidd.

Ar hyd y pandemig, cefnogodd y consortiwm ei ddysgwyr o bell drwy ystod o sesiynau dysgu a chymorth. I ddechrau, canolbwyntiodd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ar gynnal ymgysylltiad a lles dysgwyr. Fe wnaethant gynorthwyo dysgwyr i barhau â'u rhaglenni a gwneud cymaint o gynnydd ag y bo modd, yn enwedig ag agweddau ar eu rhaglenni yn ymwneud â theori. Ar draws y consortiwm, rhoddwyd blaenoriaeth uchel i sicrhau y gallai dysgwyr ddychwelyd i gwblhau asesiadau ymarferol a dal i fyny â dysgu a gollwyd. Defnyddiodd y consortiwm ei adeiladau a'i adnoddau staff yn hyblyg i wneud yn siŵr y gallai dysgwyr fanteisio ar gyfleusterau a gweithdai i gwblhau'r asesiadau ymarferol hanfodol hyn.

Ar draws y consortiwm, mae dysgwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r newidiadau y mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn eu gwneud i'w cynorthwyo. Mae adborth dysgwyr ar eu profiadau o ddysgu o bell yn feddylgar ac yn gytbwys. At ei gilydd, roedd dysgwyr technegol a galwedigaethol ar bob lefel yn croesawu dychweliad gweithgareddau wyneb-yn-wyneb. Yn benodol, roeddent yn hoffi dynameg y grŵp a'r cymorth un-i-un personol ac ymatebol a gânt gan eu hathrawon, hyfforddwyr ac aseswyr. Lle y symudodd dysgu ar-lein, roedd dysgwyr yn gweld eisiau'r rhyngweithiad â'u grwpiau cymheiriaid a'r gefnogaeth roedd hyn yn ei rhoi. Roedd yn well gan ddysgwyr fod rhai agweddau ar eu rhaglenni yn ymwneud â theori yn cael eu cyflwyno o bell, yn enwedig lle'r oedd hyn yn lleihau'r angen i deithio i'r coleg neu ganolfannau hyfforddiant. Yn aml, mae dysgwyr prentisiaethau uwch yn croesawu'r cyfle i ddysgu o bell, gan y gallant reoli eu hamser eu hunain a gweithio o gwmpas eu bywyd yn y gwaith a'r cartref i gwblhau gwaith cwrs.

****

**Work-based learning apprenticeship monitoring visit**

Between 6th and 9th December 2021, Mark Evans HMI and Sandra Barnard HMI visited the provider and its subcontractors to review the delivery of its apprenticeship programmes in the first year of the contract.  This letter provides a summary of feedback from this visit.

B-WBL is a consortium consisting of nine partner training providers led by Pembrokeshire College. The consortium delivers apprenticeships in south and west Wales to 4265 apprentices. The consortium delivers apprenticeships across 11 learning areas at level 2, level 3 and higher apprenticeships. The largest learning areas are health, public services and care with 1970 learners, engineering and manufacturing technologies with 1132 learners and construction, planning and the

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

built environment with 1163 learners. Across the B-WBL consortium, providers also deliver programmes such as a level 4 programme in beauty therapy, a level 2 programme in scaffolding and a multi-skilled engineering qualification focusing on food and drink manufacture.

During the contract award for apprenticeship programmes B-WBL was asked by the Welsh Government to support 410 displaced learners from a training provider and its subcontractors who were not awarded an apprenticeship contract. These learners have been allocated a new training provider from the consortium who will continue to support their training.

The management fee system operated by B-WBL gives subcontractors access to a wide range of support functions such as learner progress and reporting systems, management reports and guidance regarding additional learning needs and safeguarding. Consortia members have access to a comprehensive range of professional learning activities. The management fee has a risk-based element determined by the level of support required by consortia members. Consortia members can further reduce their fee by performing well against ten key performance indicators developed by B-WBL. These indicators measure a partner's performance across many aspects of the delivery of their contract, including learner outcomes, learner satisfaction and the outcome of quality audits. The consortium allocates new apprentice starts based on several factors, including historical recruitment, performance and demand. Consortia members report that the B-WBL consortium operates in an inclusive, transparent and open manner. The leadership structure across the consortium supports regular and clear communication with meetings routinely reviewing performance and sharing a wide range of information.

Throughout the pandemic the consortium supported its learners remotely through a range of learning and support sessions. Teachers, trainers and assessors initially had a focus on maintaining learner engagement and wellbeing. They supported learners to remain on programme and make as much progress as possible, especially with theory aspects of their programmes. Across the consortium a high priority was placed on making sure that learners could return to complete practical assessments and catch-up with lost learning. The consortium members used their accommodation and staff resources flexibly to make sure learners had access to facilities and workshops to complete these essential practical assessments.

Across the consortium learners recognise and appreciate the changes that teachers, trainers and assessors are making to support them. Learners' feedback on their experience of remote learning is thoughtful and balanced. Overall, technical and vocational learners, across all levels, generally welcomed the return to face-to-face activities. They particularly liked the group dynamics and the personal and responsive one-to-one support they get from their teachers, trainers and assessors. Where learning moved online, learners missed the interaction they had with their

peer groups and the support this gave. Learners preferred to have some theory aspects of their programmes delivered remotely, especially where this reduced the need for travelling to college or training centres. Higher apprenticeship learners often welcome the opportunity to undertake remote learning as they can manage their own time and work around their work and home life to complete course work.

Yn gywir / Yours sincerely



**Jackie Gapper**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol /
Assistant Director

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.